WG35.5.201

*"Coffadwriaeth y Cyfiawn sydd Fendigedig."*

# MARWNAD

## Am Farwolaeth a Chladdedigaeth y Parch. John Walters, Ystradgynlais,

**Hen Weinidog parchus gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, am yn agos i haner cant o flynyddoedd, yr hwn a fu farw boreu dydd Mawrth, Ionawr 19eg, 1869, yn dri-ugain a deg ond dau fis oed. Bernir i fod dwy fil o drigolion yn ei angladd; pregethodd y bregeth ddiweddaf yn Mhontypridd, Nos Sabboth, y 17eg.**

---

Ar y Dôn—"DINIWEIDRWYDD"

---

BETH yw'r galar, beth yw'r cwyno,
  Beth yw'r dwys och'neidio sydd,
Yn Eglwysi'r Methodistiaid,
  Gyda theimlad nôs a dydd;
Colli TAD, a phriod hawddgar,
  Un oedd dreiddgar yn y gwaith,
Glywsom yma yn pregethu,
  Geiriau'r Iesu, amser maith.

Hiraeth sydd yn mron a llethu,
  Anwyl deulu Sion Duw,
Pan yn myned ar Sabbothau,
  Gwrando geiriau dynolryw;
Oll o'r bron a'u gruddiau gwlybion,
  Mewm adgofion am y gŵr,
O! Parch. John Walters, anwyl ini,
  Ddarfu groesi grym y dwr.

9273

V2CSJ16599

Y genadwri yn mis Ionawr,
Ddaeth ar newydd mawr i mi,
Fod John Walters, Ystradgynlais,
Wedi gado'n daear ni;
Sefyll wnes wrth wel'd ei enw,
Syllu arno'n syn fy ngwedd,
Gofyn wnaeth teimladau hiraeth,
A yw Walters, yn y bedd.

Beth oedd geiriau olaf Walters,
Wrth wynebu ar y glyn,
Pwy o honoch oedd yn gwrando,
Wrth ei wely'r adeg hyn;
P'un mewn t'w'llwch ai goleini,
Dywedwch imi hyn yn awr,
Peidiwch gwylltio, rwy'n eich gadael,
Tua thragwyddoldeb mawr.

Mae Rhagluniaeth fawr y Nefoedd,
Yn gwasgaru teulu'r llawr,
Gyru rhai dros foroedd mawrion,
Rhai i dragwyddoldeb mawr;
Felly angau yrodd Walters,
Dyma'r hanes gawsom ni,
'Nawr or Eglwys filwriaethus,
Draw ir orfoleddus, fry.

Ffarwel disgwyl byth ond hyny,
Am gael gair oddiwrthyt ti,
Carwn i gael peth o'th hanes,
Yn y dyffryn tywyll du;
Dymynswn i fod wrth dy wely,
Pan yn gadael teulu'r llawr,
Gwyddost heddyw beth yw marw,
Beth yw'r tragwyddoldeb mawr.

Ffarwel obaith byth ond hyny,
  Yma i gael cwrdd ynghyd,
Yn un lle o dan yr haelwen,
  Fel y cawsom lawer pryd;
Mewn Cymmanfa a Chwrdd misol,
  Fe fu'n hyfryd genym ni,
Byth ni chawn gyfarfod mwyach,
  Yr ochor hyn i'r beddrod du.

Colled mawr i'r Methodistiaid,
  Colli Walters cywyr, cu,
A fu'n enwog hir flynyddau,
  Yn pregethu Crist yn hy;
Plant heb dad, a gwraig heb briod,
  Eich calonau sydd yn brydd,
Meddwl am eich priod Walters,
  Sydd yn gorwedd yn y pridd.

Boed yw briod sydd hiraethlon,
  Bwyso bellach ar ei Duw,
Efe yw Tad i blant amddifad,
  Priod gweddwon hefyd yw;
Ymddiriedwch yn ei allu,
  Pwyswch arno nôs a dydd,
Ofer i chwi ddysgwyl Walters,
  Byth yn ol o'i wely pridd.

Eglwys Pontypridd a gofia,
  Am ei bregeth olaf ef,
Yr ail ar bymtheg o fis Ionawr,
  Cyn ehedeg fry i'r nef;
Ar pedwerydd dydd ar bymtheg,
  Dyma'r adeg wedi dod,
I ffarwelio byth a'r teulu,
  Sy'n cartrefu dan y rhod.

Pan yn myn'd a'i gorph i'r beddrod,
O'r fath dyrfa yno ddaeth,
Ugaint cant medd hanes ini,
Yw roddi yn ei welu'n gaeth;
Gweinidogion o bob enwad,
A phregethwyr roes eu parch,
Oll yw gweled yn ddiamau,
Bawb a'u dagrau ar ei arch.

Y Masnachwyr yno gauodd,
Eu Masnachdai ar y dydd,
Oll yn barchus i John Walters,
Wrth ei roddi yn y pridd;
Yr oedd hyny'n dangos ini,
I fod Walters yn un mawr,
Pawb yn rhoddi parch dyledus,
Hyn sy'n hysbys ini 'n awr.

Ffarwel, ffarwel, anwyl gyfaill,
Gwnaethost gymell llawer iawn,
Ar dy daith hir faeth yn gyhoedd,
Nes machludoedd d' haul prydnawn;
Heddwch fo ith lwch i huno,
Nes datgloi holl feddau'r llawr,
I gael codi yn goncwerwr,
O'r carchar du yn hardd dy wawr.

EVAN GRIFFITHS,

*(Ieuan o Eifion.)*

...ONES, ARGRAFFYDD, ABERAFAN.